Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: MA P KW 5599 19

David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Q2 Building, Pencarn Lane,
Casnewydd
NP10 8UH

Mawrth 2020

Annwyl David,

Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru i weithgareddau Cymwysterau Cymru yng Nghymru: 2020-2021

Yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd i Gyllideb Derfynol 2020-2021, mae'n bleser gen i ddarparu manylion eich trefniadau cyllid.

Mae'r Senedd wedi cymeradwyo cyllideb adnodd o £9.463 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Dyma'r swm y caiff Cymwysterau Cymru ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Fodd bynnag, mae cyllid pellach o £0.981m yn cael ei ddarparu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymwysterau sy'n gydnaws â'r cwricwlwm newydd.

Y setliad cymorth grant ar gyfer 2020-21, felly, yw £9.248 miliwn. Dyma lefel y cymorth grant arian parod y ceir ei hawlio gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae wedi'i addasu mewn perthynas â gwariant nad yw'n ymwneud ag arian parod (hy dibrisiant), arian parod sydd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ac unrhyw ofynion cyfalaf gweithio.

Mae'r gyllideb adnodd a'r setliad cymorth grant wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

	2020-21 £000
Refeniw [(1)]	8,067
Cymwysterau a'r cwricwlwm newydd	981
Arholiadau Cymraeg i Oedolion	200
Heb fod yn arian parod (ee Dibrisiant/Amhariad)	215

Cyfanswm yr Adnodd	9,463
Cyfalaf	-
Cyfanswm y Gyllideb Adnodd a Chyfalaf[2]	**9,463**
Addasiadau Cymorth Grant:	
Heb fod yn arian parod (ee Dibrisiant/Amhariad)	(215)
Dyledwyr/Credydwyr/Darpariaethau [3]	
Cronfa wrth gefn	
Cyfanswm Cymorth Grant Dangosol [4]	**9,248**

1. Mae cyllid ychwanegol o £0.225m yn adlewyrchu'r pwysau'n ymwneud â phensiynau.

2. Yn adlewyrchu sefyllfa Cymwysterau Cymru o ran adnodd.

3. Bydd y cymorth grant arian parod a ddefnyddir yn dibynnu ar werth y dyledwyr a'r credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol a chyfredol, a gwerth y darpariaethau i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn.

4. Yn adlewyrchu'r grant arian parod dangosol i'w hawlio gan Gymwysterau Cymru, a fydd yn amrywio yn ôl lefel y dyledwyr/credydwyr a'r darpariaethau a ddefnyddir.

Fel y mae'r Cytundeb Fframwaith yn ei gadarnhau, lle mae Cymwysterau Cymru yn ennill incwm o ffynonellau allanol, caiff gadw hyd at 1% o gyfanswm y refeniw heb effeithio ar ei ddyraniad grant.

Rwy'n gweld eich bod wedi codi eisoes effaith alinio â dyfarniadau cyflog Llywodraeth Cymru ar eich cyllideb. Caiff y pwysau hwn o ran cyllid ei ystyried yn ystod 2020-21 unwaith y bydd dyfarniad cyflog 2020 yn hysbys.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr gyfraniad Cymwysterau Cymru hyd yn hyn i'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru, ac rwyf eisoes wedi cydnabod y rhan sylweddol y mae angen i Gymwysterau Cymru ei chymryd, a'r gweithgarwch ychwanegol y bydd yn ymgymryd ag ef, yn ystod y cyfnod datblygu a gweithredu.

Rwyf ar ddeall bod hyn wedi golygu buddsoddi mewn staff ychwanegol ac ymrwymiadau eraill yn ymwneud â'r rhaglen. Rwyf wedi darparu dyraniad ychwanegol o £0.981m ar gyfer 2020-21 i dalu am ymrwymiadau cyflog ac o ran y rhaglen, ac rydych eisoes wedi gweithredu ar rai o'r rhain. Caiff y gwariant hwn ei fonitro ar wahân, a dim ond pan fo angen penodol y bydd modd cael mynediad i'r cyllid.

Rwyf hefyd wedi nodi effaith yr ymrwymiadau hyn ar flynyddoedd i ddod, ac rwyf wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion gadw llygad yn rheolaidd ar raglen waith y flwyddyn hon a blynyddoedd i ddod, fel sail i gyfrifo'r gofynion cyllid ar gyfer 2021-22 ac wedi hynny.

O ganlyniad i'r safonau cyfrifyddu newydd ar gyfer lesoedd (IFRS16), a gaiff eu mabwysiadu ar gyfer y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2020, efallai y bydd angen ailgategoreiddio cyllidebau ar gyfer Cymwysterau Cymru ar gyfer 2020-21. Rwyf ar ddeall eich bod wedi cyflwyno gwybodaeth i'm swyddogion ynghylch y gofyniad newydd hwn, ac y bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hadlewyrchu fel rhan o Gyllideb Atodol Gyntaf 2020-21.

Fel y gwyddoch, 2020-21 yw blwyddyn olaf tymor y Llywodraeth hon, ond yn unol â'r dull cyllido a weithredir yn nhymor y Llywodraeth newydd, bydd y llythyrau cylch gwaith ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd yn darparu dyraniadau dangosol ar gyfer y tymor llawn.

Telerau ac Amodau'r Cyllid

Mae'r llythyr cylch gwaith a'r Cytundeb Fframwaith a anfonwyd at Gymwysterau Cymru yn nodi gofynion gweithredol amrywiol, ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau'r Llywodraeth y mae angen i Gymwysterau Cymru gydymffurfio â nhw, yn ogystal ag â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Pennaeth eich tîm partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru yw Claire Bennett, a'ch enw cyswllt arferol o fewn y tîm yw Judith Askew. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi'u trefnu gyda'ch tîm partneriaeth er mwyn sicrhau trefniadau goruchwylio a monitro priodol.

Er nad yw cyllideb y cymorth grant wedi'i addasu, argymhellir y dylai Cymwysterau Cymru barhau i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn (y cymorth grant nas gwariwyd), i sicrhau bod y balansau arian parod yn lleihau o fewn y ddwy flynedd nesaf i'r lefelau goddefiant a amlinellir yn y Cytundeb Fframwaith (sef 2% o'r gyllideb a ddyrennir neu tua £0.170m).

Rwyf ar ddeall hefyd eich bod wedi cyflwyno gwybodaeth i'm swyddogion ynghylch cario cronfeydd wrth gefn drosodd, ac mae hynny'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Dylid defnyddio'r ffurflen yn Atodiad A i hawlio cyllid.

Yn gywir,



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

Atodiad A

Hawlio Cymorth Grant a Monitro Cynnydd

Dylai'r tîm partneriaeth gwblhau'r testun gwyrdd a gofyn i'r corff cyhoeddus gwblhau'r testun llwyd.

Enw'r Hawlydd (sefydliad): Cymwysterau Cymru

Manylion cyswllt yr hawlydd: Kerry Price

Blwyddyn Ariannol: 2020-21

Cyfnod yr Hawliad: Rhwng 01/04/20 a 31/03/21

Hawlio Cymorth Grant Arian Parod

Y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd (a)	Y cymorth grant arian parod a hawliwyd hyd yma	Balans y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd (c) *(a-*	Y taliadau sy'n ddyledus (d)
Blwyddyn Ariannol 2020-21	Blwyddyn Ariannol BBB-BB	Blwyddyn Ariannol BBB-BB	dd/mm/bb i dd/mm/bb

Taenlen yw'r tabl uchod. Cliciwch ddwywaith ac ehangwch y ffenestr i ychwanegu rhesi. Cyfrifir y cyfansymiau yn awtomatig.

Cymorth grant arian parod yw'r arian parod sydd ar gael i (nodwch enw'r corff) ei dynnu i lawr er mwyn gwneud taliadau sy'n ddyledus. Ni cheir tynnu cymorth grant arian parod i lawr cyn bod ei angen gan fod cadw symiau gormodol o arian parod yn ddefnydd aneffeithlon o gyllid cyhoeddus. Rhaid cadw unrhyw gymorth grant nas gwariwyd bob mis ac ar ddiwedd y flwyddyn o fewn 4% a 2%, yn y drefn honno, o gyfanswm y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn honno.

Monitro'r Gyllideb Adnodd

Pennawd Gwariant	Yr alldro a ragwelir									
	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Ionawr
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Refeniw										
Eitemau nad ydynt yn arian parod										

Taenlen yw'r tabl uchod. Cliciwch ddwywaith ac ehangwch y ffenestr i ychwanegu rhesi. Cyfrifir y cyfansymiau yn awtomatig.

Yr Alldro Adnoddau yw'r gwariant refeniw a chyfalaf net y mae (Cymwysterau Cymru) yn disgwyl adrodd arno yn ei gyfrifon adnoddau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n cynnwys arian parod ac eitemau nad ydynt yn arian parod. Mae fframwaith gwariant cyhoeddus y DU sy'n cofnodi gofynion a rheolaethau yn berthnasol i'r gyllideb adnodd.

Adroddiad monitro

Targed	Cynnydd hyd yn hyn
xxx	xxx
xxx	xxx

DATGANIAD

Rwyf drwy hyn yn gwneud hawliad ar ran Enw'r sefydliad am gymorth grant.

a) Rwy'n cadarnhau bod y swm a hawlir, hyd y gwn i, o fewn y cyfyngiadau gwariant a gymeradwywyd.
b) Rwy'n cadarnhau nad yw Enw'r sefydliad yn derbyn unrhyw gyllid arall gan unrhyw sefydliad arall (gan gynnwys ffrydiau cyllid Llywodraeth Cymru) i gefnogi'r gwariant a nodir yn yr hawliad hwn. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau na phenderfynwyd arnynt eto. **/** Rwy'n cadarnhau bod Enw'r sefydliad yn derbyn a/neu wedi gwneud cais am gyllid cyfalaf a/neu refeniw arall i gefnogi'r gwariant a nodir yn yr hawliad hwn - mae'r manylion dros y dudalen*.

*Dileer fel y bo'n briodol

Llofnod:	Dyddiad:
Enw (wedi'i brintio):	Swydd:

Caiff yr wybodaeth rydym wedi casglu oddi wrthych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn defnyddio'r wybodaeth i atal twyll neu wyngalchu arian ac i wirio eich hunaniaeth. Os canfyddir eich bod wedi twyllo, mae'n bosibl na fydd gwasanaethau, cyllid a swyddi penodol ar gael i chi yn y dyfodol. Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch sut y byddwn ni a'r asiantaethau atal twyll hyn yn defnyddio eich gwybodaeth, ac am eich hawliau o ran diogelu eich data drwy gysylltu â Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Bydd angen i'r sefydliad lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd at: Judith Askew

Dylech gyflwyno eich hawliad erbyn: Terfyn amser yr hawliad

Cyllid arall sy'n cefnogi'r gwariant a nodir yn yr hawliad hwn

Math o gyllid a'i ddiben	Swm y cyllid a dderbyniwyd/y gwnaed cais amdano	% cost y swydd/yr eitem cyfalaf	Ffynhonnell y cyllid	A dderbyniwyd y cyllid neu a yw'r cais yn dal i gael ei ystyried?
Ee 3 swydd swyddog datblygu lawnamser	*£150,000*	*100%*	*Y Loteri Fawr*	*Derbyniwyd*
Prynu cyfarpar cyfalaf	*£30,000*	*70%*	*Banc Barclays*	*Mae'r cais yn dal i gael ei ystyried*